O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 729 (Cy. 86)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Ffin Cymru/Lloegr) a Chefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Ewloe, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

Gwnaed *26 Mawrth 2013*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) a Chefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494/A550) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi'u bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd gael ei gyfyngu neu ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Ffin Cymru/Lloegr) a Chefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Ewloe, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

2.— Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y

gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn neu mewn cysylltiad ag ef, neu ar gyfer y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2013 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" *("the lengths of the trunk roads")* yw'r darnau hynny o'r brif gerbytffordd a'r slipffyrdd ar hyd y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad a Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru yn gyflymach na 40 mya ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, deithio ar hyd y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

Ataliadau

5. Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Abergwyngregyn, Gwynedd) (Codi Cyfyngiad) 1994**(3)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

6. Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Llanfairfechan, Gwynedd) (Codi Cyfyngiad) 1989**(4)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

7. Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy - Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2013**(5)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

8. Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Adran Pen-y-Clip, Gwynedd) (Codi Cyfyngiad) 1994**(6)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn

yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

9. Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaen-mawr – Morfa Conwy, Conwy) (Codi Cyfyngiad) 2004**(7)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

10. Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaen-mawr, Gwynedd) (Codi Cyfyngiad) 1989**(8)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

11. Drwy hyn atelir darpariaethau Rheoliadau Ffordd Arbennig (Glanconwy i Forfa Conwy) 1990**(9)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

12. Drwy hyn atelir darpariaethau Rheoliadau Ffordd Arbennig (Bae Colwyn i Lanconwy) 1985**(10)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

13. Drwy hyn atelir darpariaethau Rheoliadau Ffordd Arbennig (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984**(11)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

14. Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Bodelwyddan - Llanelwy, Clwyd) (Codi Cyfyngiad) 1993**(12)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

15. Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Travellers Inn, Clwyd) (Codi Cyfyngiad) 1990**(13)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

16. Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55/yr A494) (Cyfnewidfa Ewloe, Clwyd) (Codi Cyfyngiad) 1986**(14)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

17. Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A494) (Ewloe i Queensferry, Clwyd) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 1987**(15)** o ran y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r

Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cymhwyso

18. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16 ac 17 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad neu'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

19. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig y 26 Mawrth 2013

R Morgan
RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi'u rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(3) O.S. 1994/3047

(4) O.S. 1989/2158

(5) O.S. 2013/693 (Cy.85)

(6) O.S. 1994/790

(7) O.S. 2004/2876 (Cy.247)

(8) O.S. 1989/1958

(9) O.S. 1990/1586

(10) O.S. 1985/824

(11) O.S. 1984/1719

(12) O.S. 1993/2152

(13) O.S. 1990/1095

(14) O.S. 1986/17

(15) O.S. 1987/2245

YR ATODLENNI

ATODLEN l
Darnau o Gefnffordd yr A55

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 12 (Cyfnewidfa Tal-y-bont).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 12 (Cyfnewidfa Tal-y-bont) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 13 (Cyfnewidfa Abergwyngregyn).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn) hyd at bwynt 600 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cyfnewidfa Cylchfan Puffin).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cyfnewidfa Llanfairfechan) i ganolbwynt Cyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cyfnewidfa Cylchfan Puffin) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Glanconwy).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 600 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 22 (Cyfnewidfa Hen Golwyn).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Glanconwy) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 23 (Cyfnewidfa Llanddulas).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 22 (Cyfnewidfa Hen Golwyn) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 23 (Cyfnewidfa Llanddulas) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 25 (Cyfnewidfa Bodelwyddan).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont Cyffordd 24A (Cyfnewidfa Llan Sain Siôr) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Llanelwy).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Llanelwy) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 29 (Cyfnewidfa Pant-y-dulath).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 29 (Cyfnewidfa Pant-y-dulath) i bwynt 400 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 29 (Cyfnewidfa Pant-y-dulath) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt isbont Cyffordd 32A (Cyfnewidfa Springfield).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o bwynt canol isbont Cyffordd 32A (Cyfnewidfa Springfield) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o bwynt canol Cyffordd 33 (Cyfnewidfa Llaneurgain).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 33 (Cyfnewidfa Llaneurgain) i bwynt canol trosbont y B5127.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont y B5127 i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 35 (Cyfnewidfa Dobshill) gan gynnwys dolenni mewnol ac allanol a slipffyrdd Cyffordd 34 (Cyfnewidfa Ewloe).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 35 (Cyfnewidfa Dobshill) tua'r dwyrain i Ffin Cymru/ Lloegr.

ATODLEN 2
Darnau o Gefnffordd yr A494/A550

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 34 ar yr A55 (Cyfnewidfa Ewloe) i bwynt 800 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r A494/yr A550 o Gyffordd 34 ar yr A55 (Cyfnewidfa Ewloe).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 34 ar yr A55 (Cyfnewidfa Ewloe) i bwynt 800 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494/yr A550.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494/yr A550 i ffin Cymru/Lloegr.